(HCC 879)

**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10.30am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Mercher 27 Chwefror 2019**

**Yn Bresennol:** Kevin Roberts (Cadeirydd)
Gareth Wynn Davies, Huw Davies, John Davies, Helen Howells, Barrie Jones, Rachael Madeley Davies, Catherine Smith, Claire Williams ac Ogwen Williams

**Trwy Wahoddiad:** Julia Douch (Llywodraeth Cymru) – Eitem 1
David Richards (Llywodraeth Cymru) – Eitem 1
Maria Richards (Llywodraeth Cymru)
Alison Wright (Calland Wright Consulting) - Eitem 1 / Arsylwr

**Y Weithrediaeth a oedd yno:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Jo Horder, Swyddog Gweithredol Polisi a Strategaeth Cig Coch (Eitem 8e)
Kirsten Hughes, Swyddog Gweithredol Cig Coch (Eitemau 9 a 10)

Rhaglen Datblygu Cig Coch (Eitem 8a)
Gwawr Parry, Eleri Price, Rebekah Stuart

**Y Tîm Rheoli:** Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant)

1. **<u>I dderbyn cyflwyniad ar Lywodraethu Sector Gyhoeddus</u>**

Croesawodd y Cadeirydd David Richards (DR), Cyfarwyddwr Llywodraethu a Moeseg a Julia Douch (JD), Pennaeth yr Uned Cyrff Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru, i'r cyfarfod. Roedd y ddau wedi cwrdd â'r Bwrdd o'r blaen yn ystod rhaglen gynefino'r Bwrdd yn 2017.

Yn dilyn adolygiad o Nawdd Llywodraeth Cymru i Gyrff Cyhoeddus – "Cyflawni Gyda'n Gilydd", byddai DR a JD yn mynychu cyfarfodydd yr holl Fyrddau ar gyfer y Sector Cyhoeddus er mwyn rhoi cyflwyniadau ar Lywodraethu Sector Cyhoeddus.

Dywedodd DR fod Y Fonesig Shan Morgan, yr Ysgrifennydd Parhaol, yn dilyn yr adolygiad, wedi dweud y byddai'n hoffi gweld is-adrannau a noddir gan Lywodraeth Cymru yn cynorthwyo a gweithio'n agosach â'r Byrddau sector cyhoeddus.

Diolchodd DR i'r Bwrdd am ei ymrwymiad a'i waith hyd yma, yn enwedig yn ystod y broses Brexit, a oedd yn dal i fod yn heriol.

Esboniodd DR fod gweithio a chyflawni mewn “rôl gyhoeddus” yn ymofyn trafod cyllid mewn ffordd glir, dryloyw a chywir. Roedd y Prif Weithredwr wedi cael ei benodi’n “Swyddog Cyfrifyddu” i HCC, gyda chyfrifoldeb unigol am stiwardiaeth arian cyhoeddus, ac roedd yn atebol yn uniongyrchol i Weinidogion yn Llywodraeth Cymru.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi derbyn adroddiadau positif am y Bwrdd a’i Weithrediaeth. Fodd bynnag, manteisiodd DR ar y cyfle i atgoffa aelodau’r Bwrdd am eu cyfrifoldebau fel Cyfarwyddwyr Anweithredol HCC a chyfeiriodd yn benodol at egwyddorion Nolan ynghylch bywyd cyhoeddus.

Dywedodd JD wrth y Bwrdd fod Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru (PBU) wedi cael ei sefydlu yn dilyn yr adolygiad. Rôl y PBU fyddai gweithredu fel canolfan ragoriaeth a darparu cyngor cyson a mwy o sicrwydd i'r Llywodraeth, cyrff-hyd-braich a'r cyhoedd. Byddai'r PBU yn ymgysylltu â Chadeiryddion a Phrif Weithredwyr pob corff-hyd-braich i sicrhau cydymffurfiad â phrosesau a gweithdrefnau priodol.

Adolygwyd 3,000 o gyrff a ariannwyd gan grantiau a chafodd yr adolygiad ei gyfyngu wedyn i gyrff-hyd-braich. Daeth llawer o anghysondebau i'r amlwg ond, ar yr un pryd, roedd rhywfaint o lywodraethu cryf yn amlwg ymhlith cyrff cyhoeddus.

Yn ddiweddar, sefydlwyd Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus Llywodraeth Cymru gyda'r bwriad o ddarparu rhwydwaith ar gyfer Cadeiryddion, Prif Weithredwyr a noddwyr ac arweinwyr polisi. Y gobaith oedd y byddai'r fforwm hwn yn hwyluso gwell cyfathrebu a rhannu gwybodaeth a fyddai'n arwain at gynllunio mwy effeithlon a gwneud penderfyniadau yn well. Cafodd HCC ei gynrychioli gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr mewn cyfarfod fforwm ar 31 Ionawr 2019.

Dywedodd JD mai rhai o’r penderfyniadau a wnaed yn ystod y cyfarfod hwn oedd: -

- Dileu statws arsylwr Swyddogion Llywodraeth Cymru yng nghyfarfodydd Byrddau-hyd-braich (dim ond mewn rhannau o’r cyfarfodydd y mae angen iddynt fod yn bresennol) . Fodd bynnag, ar gyfer cwmnïau-eiddo-llwyr, byddai Swyddogion yn bresennol i gynrychioli buddiannau'r cyfranddaliwr (Gweinidogion Cymru)

- I wella effeithlonrwydd yn Llywodraeth Cymru, e.e rhannu papurau Byrddau a'r berthynas rhwng y Llywodraeth a'r Byrddau. Byddai Telerau Llywodraethu yn newid ynghyd â gweithdrefnau rheoli - dim rhagor o edrych ar gynlluniau ac archwiliadau busnes ond mwy o bwyslais ar gydweithio mewn ffordd glir a thryloyw, yn enwedig rhwng timau noddi Llywodraeth Cymru a Byrddau

- Nodwyd yn y cyfarfod fod Craig Greenland wedi'i benodi'n Bennaeth Penodiadau Cyhoeddus ac y byddai'n gweithio'n agos â chyrff cyhoeddus.

Byddai'r Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus nesaf yn canolbwyntio ar brosesau penodi Cyfarwyddwyr Anweithredol a fyddai'n cynnwys y broses sy’n ymwneud â gwerthusiadau ac asesiadau.

Ymadawodd cynrychiolwyr y PBU ac Alison Wright a dechreuodd y rhan ffurfiol o gyfarfod y Bwrdd.

2. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd Maria Richards, Pennaeth Polisi Ffermio'r Dyfodol a fyddai'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol wrth gynrychioli'r Is-adran Amaethyddiaeth - Cynaliadwyedd a Datblygu (yr adran sy'n noddi HCC).

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu oddi ar y cyfarfod blaenorol o'r Bwrdd: -

17 Ionawr 2019 - Cyfarfod Bord Gron Brexit y Gweinidog a Chyfarfod Brexit y Prif Weinidog

18 Ionawr 2019 - Cyfarfod Meat Alliance NZ yn Llundain.

22 Ionawr 2019 - Mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ddigwyddiad Brecwast Ffermdy UAC yn y Cynulliad Cenedlaethol.

31 Ionawr 2019 - Mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gyfarfod o'r Fforwm Cyrff Cyhoeddus.

5 Chwefror 2019 - Mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr Gynhadledd Bwrdd Da Byw NFU Cymru, sef "Sector Cig Coch Cymru – I ble nawr?" Cafwyd cyflwyniad gan y Cadeirydd yn y gynhadledd ac ymunodd y Prif Weithredwr ar gyfer y sesiwn Holi ac Ateb wedyn.

6 Chwefror 2019 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng nghyfarfod Llywodraethu chwarterol Llywodraeth Cymru / HCC.

19 - 21 Chwefror 2019 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng Nghynhadledd yr NFU yn Birmingham, sef "Our Food, Our Future". Cafwyd cyflwyniad gan y Cadeirydd yn y gweithdy "*Welsh Farming: Food at the heart of our future*"

22 Chwefror 2019 – Bu'r Cadeirydd yng nghyfarfod Brexit y Prif Weinidog.

3. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cafwyd ymddiheuriadau gan Mark Alexander, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Amaethyddiaeth - Cynaliadwyedd a Datblygu a fyddai'n goruchwylio gwaith Gary Haggaty dros dro nes bod apwyntiad parhaol yn cael ei wneud. Byddai'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd pan fyddai ar gael.

Ar ran y Bwrdd, dymunodd y Cadeirydd yn dda i Gary Haggaty yn ei rôl newydd fel Dirprwy Gyfarwyddwr, Diogelwch Cymunedol ac Argyfyngau Sifil gyda Llywodraeth Cymru a diolchodd iddo am y berthynas waith dda a'r gefnogaeth a roddwyd i HCC yn ystod ei amser yn yr Is-adran Amaethyddiaeth – Cynaliadwyedd a Datblygu.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Reolwr Datblygu'r Farchnad a oedd ar daith fasnach yn Siapan a'r Rheolwr Cyfathrebu a oedd yn cynrychioli HCC mewn derbyniad Dydd Gŵyl Dewi yn Senedd yr UE ym Mrwsel.

4. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

5. **I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 10 Ionawr 2019 (HCC 863)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 10 Ionawr 2019 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

6. **Materion yn codi**

*EIDCymru – System olrhain amlrywogaeth i Gymru*

Nid oedd diweddariad i'w roi.

*Y Sector Lladd a Phrosesu*

Roedd cyfarfodydd ymgysylltu diweddar HCC â chynrychiolwyr o'r sector lladd a phrosesu a gynhaliwyd yng Ngholeg Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr (15 Chwefror 2019) ac yn Ystad Rhug, Corwen (16 Chwefror 2019) yn llwyddiannus a byddai digwyddiadau tebyg yn cael eu trefnu ar gyfer yr hydref. Diolchodd y Weithrediaeth i ddwy o Aelodau'r Bwrdd, Rachael Madeley Davies a Helen Howells, am gadeirio'r cyfarfodydd.

Byddai'r Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant yn cynrychioli HCC yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas yr Arwerthwyr Da Byw (LAA) a gynhelir ar 14 Mawrth 2019.

*Grŵp HCC ar gyfer Ymgysylltu â'r Diwydiant*

Cafwyd adroddiad am gyfarfod cyntaf yr uchod gan Aelod o'r Bwrdd, Claire Williams. Cynhaliwyd y cyfarfod ar 22 Chwefror ac roedd cynrychiolwyr o HCC, Llywodraeth Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru ac NFU Cymru yn bresennol.

7. **Diweddariad Brexit**

a. I drafod y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â'r DG yn gadael yr UE

Wedi'i gynnwys yn eitem 7b isod.

b. I dderbyn papur ar Archwiliad o barodrwydd HCC i adael yr UE (HCC 864)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Dywedwyd bod y papur hwn wedi'i baratoi gan y Weithrediaeth yn dilyn galwad am dystiolaeth ac archwiliad hunanasesu gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o drefniadau sector cyhoeddus Cymru ar gyfer ymadael â'r UE.

Cytunodd y Bwrdd fod HCC wedi cymryd camau pragmatig a oedd yn seiliedig ar dystiolaeth i ymgysylltu â'r sector.

Cytunodd y Bwrdd fod mynediad i'r farchnad a chynnal allforion yn hanfodol. Roedd y diwydiant wedi cael ei hysbysu am hyn.

Cafwyd trafodaeth ford gron ynghylch sefyllfa'r sector defaid a'r ansicrwydd sy'n wynebu amaethyddiaeth yn gyffredinol.

Roedd ymyriadau byrdymor a hirdymor wedi'u nodi gan Lywodraeth Cymru ac ar hyn o bryd roeddynt yn edrych ar ddeddfwriaeth bosibl a thaliadau argyfwng er mwyn cynorthwyo ffermwyr. Cynhaliwyd cyfarfodydd Brexit mewnol yn rheolaidd gan Lywodraeth Cymru i drafod materion fel pecynnau cymorth i ffermwyr, gwaith trosglwyddo gwybodaeth, lles ac effaith iechyd meddwl - yn ogystal â stoc, capasiti, materion storio ac ati. Mynychodd y Prif Weithredwr y cyfarfodydd hyn.

Nodwyd bod y Weithrediaeth wedi paratoi cyfres o gyfathrebiadau rhwng nawr a 29 Mawrth 2019 er mwyn cynnal hyder y defnyddwyr a thalwyr Ardoll.

## 8. Adroddiadau HCC

a. Gweithgareddau (HCC 865)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*Diweddariad am Gynhadledd Flynyddol HCC – Ddydd Iau 14 Tachwedd 2019*

Nodwyd bod cynllunio ar waith ar gyfer yr uchod, a gynhelid yng Nghanolfan yr Aelodau ar faes Sioe Frenhinol Cymru. Roedd dau brif siaradwr, sef yr Arglwydd Mark Price (cyn-Reolwr Gyfarwyddwr Waitrose a chyn-Weinidog Masnach) a Dr Zoe Harcombe, maethegydd ac awdur, wedi cytuno i gymryd rhan.

*Y Prosiect Datblygu Cig Coch (RMDP)*

Ymunwyd â'r cyfarfod gan staff o'r RMDP a roddodd gyflwyniadau am eu prosiectau gwahanol cyn sesiwn Holi ac Ateb: -

Dr Eleri Price – Ansawdd Bwyta Cig
Gwawr Parry – Cynllun Hyrddod Mynydd
Dr Rebekah Stewart – Iechyd Anifeiliaid a Diadelloedd

*Prosiect Meincnodi*

Rhoddodd Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant ddiweddariad o'r uchod:-

Cymerwyd rhan gan 1,600 o ffermwyr. Cymharol ychydig (40) o ffermwyr a arhosodd i fynd drwyddo i'r broses wirio derfynol. Byddai adroddiad i'r diwydiant yn cael ei lunio yn gynted ag y byddai'r cymal data wedi ei gwblhau.

Y camau nesaf fyddai rhoi gwybod i ffermwyr sut y gallent gael hyd i'w data personol ar-lein a meincnodi eu canlyniadau yn ôl prosiect y data. Nodwyd y byddai Cyswllt Ffermio hefyd yn cynnal sesiynau cymorth.

Diolchodd Llywodraeth Cymru i'r Weithrediaeth am y gwaith a wnaed o ran gweithredu'r prosiect.

b. Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 866)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

c. Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 31 Rhagfyr 2018 (HCC 867)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

d. Digwyddiadau i ddod (HCC 868)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

e. I dderbyn briff ynghylch Polisi Dosbarthiad a Thrafod Gwybodaeth HCC (HCC 869)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen ac wedi'i gyflwyno gan Swyddog Gweithredol Polisi a Strategaeth Cig Coch.

Cafodd gweithdrefnau diogelu gwybodaeth o safbwynt y Bwrdd eu crynhoi fel a ganlyn: -

Roedd gan y Bwrdd ddyletswydd i fod yn gyfrinachol a chyfrifoldeb i ddiogelu unrhyw wybodaeth y byddai'n eu cyrchu.

Roedd rhaid bob amser i wybodaeth a roddid mewn perthynas â HCC (nid yn gyhoeddus) gael ei drin yn gyfrinachol ac ni ddylid ei rhoi i neb y tu allan i HCC. Er mwyn gwneud yn siŵr fod gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel bob amser, rhaid i'r Bwrdd lynu wrth bolisi a gweithdrefnau Diogelu Gwybodaeth HCC.

Câi gwasanaeth storio system-gwmwl ei ddefnyddio i storio a rhannu holl ddogfennau cyfrinachol HCC, fel papurau'r Bwrdd a Phwyllgorau. Byddai aelodau'r Bwrdd yn gallu cyrchu'r gwasanaeth hwn, a fyddai'n cael ei ddatblygu yn ystod yr wythnosau nesaf.

Ni châi cyfeiriadau e-bost dynodedig Aelodau'r Bwrdd eu defnyddio ond i anfon gohebiaeth gyffredinol.

Yn dilyn yr uchod, cafodd y Bwrdd ei atgoffa gan y Swyddog Gweithredol dros Bolisi a Strategaeth am ei ddyletswydd ynghylch trafod dogfennau'r Bwrdd.

**Dylid**

- ✓ Cydymffurfio â Pholisi Diogelu Gwybodaeth HCC
- ✓ Rhoi gwybod i HCC ar unwaith os ydych yn gwybod neu'n amau bod gwybodaeth wedi ei dwyn, ei lladrata neu ei throsglwyddo i rywun na ddylai ei chael
- ✓ Gwneud yn siŵr fod dyfeisiau personol a ddefnyddir i gyrchu gwybodaeth HCC yn cael eu diogelu gan Gyfrineiriau neu PIN
- ✓ Cadw'r holl feddalwedd ar y dyfeisiau personol yn gyfamserol
- ✓ Newid eich cyfrinair os ydych chi'n amau ei fod dan fygythiad
- ✓ Bod yn ymwybodol o'r peryglon o ddefnyddio poethfannau wi-fi mewn mannau cyhoeddus
- ✓ Gwneud yn siŵr nad oes neb arall yn gallu darllen copïau caled
- ✓ Cael gwared ar gopïau caled cyfrinachol trwy eu torri'n stribedi mân Gellid gadael y rhain gyda HCC i'w gwaredu
- ✓ Ceisio cyngor gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol os ydych yn ansicr ynghylch unrhyw agweddau ar Ddiogelu Gwybodaeth HCC

**Ni ddylid**

- ✗ Rhannu cyfrineiriau â neb
- ✗ Storio gwybodaeth gyfrinachol ar ddyfais bersonol neu ffon gof
- ✗ Anfon dogfennau cyfrinachol HCC wrth ddefnyddio cyfrifon e-bost personol
- ✗ Caniatáu i rywun heb awdurdod gyrchu neu ddefnyddio gwybodaeth gyfrinachol
- ✗ Gadael dyfais â hygyrchedd i wybodaeth HCC heb ei chloi pan nad yw yn eich meddiant
- ✗ Gadael copïau caled â gwybodaeth gyfrinachol am HCC allan o'ch gofal neu eu dal fel bod rhywun arall yn gallu eu darllen
- ✗ Trafod materion cyfrinachol HCC dros y ffôn neu mewn man lle gall rhywun arall glywed

9. **<u>Corfforaethol</u>**

a. <u>I gymeradwyo'r crynodeb o newidiadau i Gynllun Corfforaethol drafft HCC 2019 / 2022 sy'n codi o gyfarfod y Bwrdd ar 10 Ionawr 2019 (HCC 870)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen ac fe'i cyflwynwyd gan y Swyddog Cig Coch.

b. <u>I gymeradwyo Cynllun Corfforaethol drafft HCC ar gyfer 2019 / 2022 (HCC 871)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd cyflwyno Cynllun Corfforaethol 2019 / 2022 a'r Cynllun Gweithredol 2019 / 2020 i'r Gweinidog i'w hystyried ar yr amod y byddai'r byddai'r adolygiad o'r dogfennau'n dibynnu ar ganlyniad Brexit.

Gan ystyried yr uchod, cafodd Cynllun Corfforaethol 2019 / 2022 ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

c. <u>I gymeradwyo'r crynodeb o newidiadau i Gynllun Gweithredol drafft HCC 2019 / 2020 sy'n codi o gyfarfod y Bwrdd ar 10 Ionawr 2019 (HCC 872)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, cafodd ei gyflwyno gan y Swyddog Gweithredol Cig Coch a'i gymeradwyo gan y Bwrdd.

d. <u>I gymeradwyo Cynllun Gweithredol drafft HCC ar gyfer 2019 / 2020 (HCC 873)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

10. **<u>I dderbyn a chymeradwyo'r Cynllun Gwaith ar gyfer y Bwrdd, 2019 / 2020 (HCC 874)</u>**

Cymerwyd bod y copi diwygiedig o'r uchod wedi'i ddarllen, ac fe'i derbyniwyd gan y Bwrdd.

11. **<u>Pwyllgorau HCC</u>**

*<u>Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg</u>*

a. <u>I fabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Mercher 7 Tachwedd 2019 (HCC 875)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

*<u>Y Pwyllgor Cynghori  ar Farchnata</u>*

b. <u>I dderbyn adroddiad llafar am y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata a gynhaliwyd ddydd Llun 11 Chwefror 2019</u>

Cafwyd adroddiad ar yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

c. I fabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata a gynhaliwyd ddydd Llun 10 Rhagfyr 2018 (HCC 876)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

*Y Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth (R&D&KE)*

d. I fabwysiadu'r cofnodion o delegynhadledd y Pwyllgor R&D&KE a gynhaliwyd ddydd Mercher 5 Rhagfyr 2018 (HCC 877)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

*Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu*

e. I fabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Iau 10 Ionawr 2019 (HCC 878)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

12. **Unrhyw fater arall**

Dywedodd un o aelodau'r Bwrdd, Cath Smith, ei bod, yn ddiweddar, wedi mynychu cyfarfod sirol NFU Sir Fynwy lle cafwyd trafodaeth am waith HCC mewn perthynas ag addysg ac ysgolion. Nid oedd rhai o'r bobl a oedd yn y cyfarfod yn ymwybodol o waith HCC i'r cyfeiriad hwn, meddai. Cafodd y Bwrdd ei atgoffa fod HCC yn weithgar iawn yn hyn o beth a bod modd cael hyd i wybodaeth ar wefannau HCC fel: -

https://hccmpw.org.uk/en/about/what-we-do/education
https://hccmpw.org.uk/en/news-industry-info/download
https://hccmpw.org.uk/en/about/what-we-do/marketing

Roedd gwybodaeth ar gael hefyd ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol HCC neu drwy'r tîm cyfathrebu. Cytunwyd y byddai'n fuddiol pe bai'r wybodaeth hon yn cael ei hanfon at NFU Sir Fynwy erbyn y cyfarfod sirol nesaf. Roedd y gallu i hysbysu am weithgareddau HCC yn swyddogaeth allweddol i'r Bwrdd.

*Treuliau'r Bwrdd*

Gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd anfon manylion am eu treuliau at y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol cyn gynted â phosibl.

13. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod: -**

Telegynhadledd diweddaru'r Bwrdd – Dydd Iau 4 Ebrill 2019 am 2.00pm
Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 2 Mai 2019 am 10.30am

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**